SFLSCM117

Monitro cyflenwadau mewn lleoliadau a chyfleusterau storio

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â monitro cyflenwadau mewn lleoliadau a chyfleusterau storio. Mae'n cynnwys cydgrynhoi a dadansoddi gwybodaeth yn ymwneud â'r cyflenwadau sy'n cael eu storio. Mae hefyd yn cynnwys monitro lleoliad a chyflwr y cyflenwadau, nodi a datrys problemau, rhoi canlyniadau dadansoddiadau a chreu argymhellion yn ymwneud â rheoli cyflenwadau.

Mae'r safon hon ar gyfer ymarferwyr cadwyn gyflenwi. Gallai hyn fod, er enghraifft, mewn rolau prynu, gweithrediadau logisteg llwythi neu reoli trafnidiaeth.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. monitro lleoliad a chyflwr y **cyflenwadau** sy'n cael eu storio **mewn lleoliadau a chyfleusterau storio**
2. cael gwybodaeth berthnasol am y **cyflenwadau** sy'n cael eu storio
3. cydgrynhoi a pharatoi gwybodaeth am y **lleoliadau a'r cyfleusterau storio er mwyn eu dadansoddi**
4. dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth am y **lleoliadau a'r cyfleusterau storio**
5. cadarnhau bod y **cyflenwadau'n** cael eu storio yn unol â gofynion y **gadwyn gyflenwi**
6. asesu holl ffactorau a pheryglon perthnasol storio **cyflenwadau**
7. nodi ac ymdrin â phroblemau yn storio **cyflenwadau**
8. rhoi canfyddiadau eich monitro i **gydweithwyr** a gwneud argymhellion
9. cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol, rheoliadol a sefydliadol perthnasol ar gyfer storio **cyflenwadau** mewn **lleoliadau a chyfleusterau storio**
10. cyfathrebu gyda chydweithwyr yn y **gadwyn gyflenwi** trwy gydol y broses fonitro

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. nodau strategol, amcanion a gweithgareddau eich sefydliad mewn perthynas â rheoli **cyflenwadau** mewn **lleoliadau a chyfleusterau storio**
2. damcaniaethau, modelau ac arferion **cadwyn gyflenwi**
3. ffynonellau gwybodaeth eich sefydliad ar brosesau **cadwyn gyflenwi**
4. damcaniaethau, modelau ac arferion logisteg
5. sut i fonitro **cyflenwadau** mewn **lleoliadau a chyfleusterau storio**
6. sut i gael a dadansoddi gwybodaeth am storio **cyflenwadau** mewn **lleoliadau a chyfleusterau storio**
7. dulliau a gweithdrefnau perthnasol ar gyfer gwerthuso gwybodaeth am storio cyflenwadau
8. damcaniaethau, modelau ac arferion mesur perfformiad a meincnodi
9. y mathau o broblemau a all ddigwydd wrth storio cyflenwadau a sut i ymdrin â nhw
10. damcaniaethau, modelau ac arferion cyflwyno
11. y dulliau cyfathrebu a ddefnyddir gan eich sefydliad
12. y gofynion cyfreithiol, rheoliadol a sefydliadol perthnasol ar gyfer storio **cyflenwadau** mewn **lleoliadau a chyfleusterau storio**

Geirfa

Cadwyn gyflenwi: caffaeliad, prynu a chyflenwi, logisteg, trafnidiaeth, a rheoli gweithrediadau, o fewn a rhwng ffiniau rhyngwladol

Cydweithwyr: parhaol, dros dro, staff asiantaeth, allanol

Cyflenwadau: unrhyw gyfuniad o nwyddau neu wasanaethau sy'n cael eu caffael, eu dosbarthu neu eu storio yn y gadwyn gyflenwi

Lleoliadau a chyfleusterau storio: amgylchedd dros dro neu barhaol, oer, sych, awyr agored, dan do, wedi ei awyru, ar wahân, mynediad cyfyngedig

SFLSCM117

Monitro cyflenwadau mewn lleoliadau a chyfleusterau storio

Datblygwyd gan	Skills for Logistics
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Ionawr 2018
Indicative Review Date	Ionawr 2023
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Skills for Logistics
RCU gwreiddiol	SFLSCM117
Galwedigaethau perthnasol	Manwerthu a chyfanwerthu ; Warws a Dosbarthu; Rheolwyr Dosbarthu, Storio a Manwerthu; Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiol Trafnidiaeth
Cyfres/Set	Rheoli Cadwyn Gyflenwi
Geiriau Allweddol	cyflenwadau; storio; lleoliadau; cyfleusterau; cadwyn gyflenwi